Mrs Jo Harrison - Taylor
Acorn Care (Welshpool) Limited
2nd Floor Bezant House
Bradgate Park View
Chellaston, Derby
DE73 5HU

Llinell Uniongyrchol: 02920 928866
Ffacs: 02920 928914
E-bost: John powell@wales.gsi.gov.uk

Eich cyf / Your ref:
Ein cyf / Our ref :Phoenix House

25 Hydref 2012

Annwyl Mrs Harrison - Taylor

Parthed: Ymweliad a gynhaliwyd â Phoenix House ar 1 Hydref 2012

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd dilynol ag ysbyty annibynnol Phoenix House, Y Trallwng, ar 1 Hydref 2012. Amlygodd yr ymweliad rai meysydd lle y gwnaed gwelliannau ers ein hymweliad ym mis Mawrth 2012, ond nodwyd hefyd rai meysydd y mae angen cymryd mwy o gamau gweithredu ar eu cyfer. Trafodwyd y rhain gyntaf gyda'ch rheolwr penodedig ar noson ein hymweliad.

Mae crynodeb o'n pryderon a'r tor-rheoliadau wedi ei nodi isod:

Achos y pryder	**Rheoliad**
1. Roedd y rheolwr penodedig wedi ymddiswyddo cyn yr ymweliad, ac roedd ar fin gadael yr ysbyty. Roedd hyn yn cael effaith negyddol iawn ar ysbryd y staff. Dywedodd y rheolwr wrth AGIC mai un o'r rhesymau pam yr oedd hi'n gadael oedd oherwydd iddi fod ar alwad ar gyfer yr ysbyty'n barhaus am nifer o fisoedd a'i bod yn teimlo nad oedd yn gallu gwneud hynny mwyach. Mae'n amlwg fod hwn yn fater sy'n achosi cryn bryder a bod yn rhaid rhoi sylw iddo cyn penodi unrhyw reolwr yn y dyfodol. Yn dilyn yr ymweliad, fe'n hysbyswyd y byddai'r Cyfarwyddwr Masnachol o Lighthouse yn cyflenwi swydd y rheolwr yn rhan-amser. Mae hyn yn annerbyniol, ac mae angen rheolwr amser llawn yn ddi-oed, o ystyried y problemau rheoleiddio parhaus a nodwyd. Er y cydnabyddir bod rheolwr nyrsys clinigol wedi ei benodi, bydd yr unigolyn hwnnw'n newydd iawn i Phoenix House a'r swyddogaeth, ac o ganlyniad, ni ellir disgwyl iddo ddarparu'r lefel o	Rheoliad 11 (1) (a) a (b) (i) a (iii)

arweinyddiaeth a rheolaeth sydd eu hangen. 2. Diffyg staff parhaol sy'n cael ei gyflogi gan y sefydliad. Y gwir am hyn oedd bod staff asiantaeth yn cymryd lle staff parhaol ar nifer sylweddol o sifftiau. Er i'r sefyllfa hon wella'n ddiweddar oherwydd bod llai o gleifion yn derbyn llety, a bod angen llai o staff oherwydd hynny, mae'n rhaid i AGIC ei bodloni ei hun fod yr holl staff asiantaeth wedi cael hyfforddiant sefydlu priodol a hyfforddiant priodol arall.	Rheoliad 20 (1) (a) a (b) a 2 (a)
3. Roedd nifer o aelodau staff heb gael hyfforddiant diweddar ar nifer o feysydd, gan gynnwys Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA), anaffylacsis a diffibrilio. Yn ogystal, nid oedd nyrsys cofrestredig ar y wardiau yn gallu gweithredu'r silindr ocsigen cludadwy yn effeithiol. Pe byddai angen y darn hwn o offer ar gleifion, mae risg sylweddol na fyddai ar gael, naill ai oherwydd na fyddai'r offer yn gweithio neu/a gallu'r staff i ddefnyddio'r offer yn effeithiol. Roedd hyn yn ofyniad yn y llythyr blaenorol ynglŷn â gofynion ym mis Ebrill 2012, ac mae angen rhoi sylw iddo ar unwaith erbyn hyn.	Rheoliad 15 (1) (a) a (b) a 20 (1) (a) a (2) (a) a (b)
4. Roedd yr amgylchedd wedi ei addurno ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan, ond roedd slabiau'r patio ym mhrif fan ysmygu'r cleifion yn anwastad, ac roedd y patio pren yn risg sylweddol o ran tân, o ystyried natur y man yr oedd wedi ei leoli ynddo.	
5. Wrth fynd o gwmpas i edrych ar yr amgylchedd, dangoswyd "ystafell wely arddangosol" i AGIC, lle'r oedd llenni a deunyddiau, fâs a helygen, lamp ddesg a gorchudd clustog a duvet, ond nid oedd dim byd tebyg i'w gweld yn yr ystafelloedd eraill nad oeddynt yn cael eu defnyddio ac a oedd ar gael.	Rheoliad 26 (2) (a) a (b)
6. Nid oedd cofnodion y cleifion wedi eu cadw'n briodol, ac roeddent wedi eu rhoi yn ddi-drefn mewn blychau plastig a'u pentyrru ar y llawr. Nid oedd unrhyw gofnod ar gael i ddangos ble y gellid dod o hyd i gofnodion cleifion a oedd wedi eu harchifo'n unigol.	
7. Mae'r sefyllfa lle nad oes archwiliad fferyllol ar gael yn parhau, ac roedd hyn yn ofyniad o'r ymweliad blaenorol. Hysbyswyd AGIC fod ymweliad fferyllol wedi ei drefnu. Roedd yn siom nodi fod hyn	Rheoliad 26 (2) (c)

wedi cymryd 6 mis i'w drefnu. Yn ogystal, nid oedd rhai hufenau i'w defnyddio ar y corff wedi eu labelu'n briodol ag enw'r claf.	
8. Roedd adborth a gafwyd gan y staff yn dangos diffyg goruchwyliaeth.	Rheoliad 23 (2) (b) a (3) (a) a (b)
9. Gellid cloi drws y patio, sef yr allanfa dân benodedig i gael ei defnyddio pe byddai tân, a'r unig un a oedd ag allwedd oedd y brif nyrs. Hysbyswyd AGIC nad oedd y drws hwn fyth yn cael ei gloi, ac mae hyn yn codi'r mater o ddiogelwch i'r ysbyty o ran mynediad heb ganiatâd. Nid oedd unrhyw asesiad risg wedi ei lunio ar gyfer y man hwn. Mae'n hanfodol bwysig fod y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu fel mater o frys.	Rheoliad 15 (5) (a) a 19 (1) (a)
10. Yn ystod nifer sylweddol o gyfweliadau â'r staff, nodwyd amrywiaeth o broblemau, gan gynnwys y ffaith fod y staff yn teimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol nac yn cael eu cefnogi, a bod y systemau cyfathrebu a oedd wedi eu sefydlu yn wael. Mynegodd y staff bryder hefyd ynglŷn â'r ffaith fod y rheolwr yn gadael yr ysbyty.	Rheoliad 20 (2) (a) Rheoliad 26 (4) (b) a (d) Rheoliad 18 (2) (a) a (b)

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn 14 Tachwedd 2012 yn egluro'r camau gweithredu yr ydych yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â phob un achos o bryder. Dylai'r cynllun gweithredu nodi amserlenni a manylion yr unigolyn a fydd yn gyfrifol am roi'r camau gweithredu ar waith. Pan fydd AGIC wedi cytuno bod y cynllun yn briodol, bydd yn ofynnol i chi ddarparu diweddariadau bob mis ar y cynnydd.

Ar ôl i ni gael eich cynllun gweithredu, cyhoeddir copi o'r llythyr rheoli hwn, ynghyd â'ch cynllun gweithredu, ar ein gwefan.

Efallai y byddaf yn cynnal ymweliad arall er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r uchod, a byddaf yn cynnal ymweliadau mwy aml os bydd gennyf bryderon nad yw'r camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith mewn modd prydlon.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'ch tîm am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod ein hymweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi pe byddech yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Miss Amanda Hazelwood, Rheolwr Phoenix House.

Yn gywir

Mr John Powell
Pennaeth Rheoleiddio